**Pwyllgor yr Economi,
Masnach a Materion Gwledig**
—
**Economy, Trade, and
Rural Affairs Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddEconomi@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddEconomi
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEconomy@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEconomy
0300 200 6565

Rajesh Nair
Prif Swyddog Gweithredol
Tata Steel UK

24 Hydref 2025

Annwyl Rajesh,

**Gwybodaeth ddilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar 9 Hydref**

Diolch i chi am ddarparu tystiolaeth ar 9 Hydref ynghylch datblygiadau yn Tata fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i ddyfodol dur Cymru.

Ers hynny, mae Tata wedi cadarnhau y bydd cyfnod cau hir ar rai safleoedd rhwng mis Tachwedd a mis Ionawr, gan effeithio ar y felin stribed boeth ym Mhort Talbot, y gweithfeydd tunplat yn Nhrostre, a'r llinell biclo yn Llanwern. Mae'r Pwyllgor wedi clywed adroddiadau y bydd gweithwyr y mae hyn yn effeithio arnynt yn cael 65% o'u cyflog arferol yn ystod y cyfnod hwn, a bod rhai o'r rheini sy'n weithio fel contractwyr yn cael hysbysiad diswyddo gan eu cyflogwyr oherwydd y penderfyniad hwn.

A allwch chi gadarnhau'r rhesymeg dros y cyfnod cau, a fydd gweithwyr yr y mae hyn yn effeithio arnynt ond yn derbyn 65% o'u cyflog dros y cyfnod hwn, ac os felly pam eich bod wedi penderfynu mai dyma fydd y gostyngiad yn eu cyflog? A allwch chi hefyd nodi sut y gwnaethoch chi ystyried yr effaith ar y rheini sy'n gweithio fel contractwyr wrth benderfynu ar gyfnod cau hir?

Yn ogystal, codwyd nifer o faterion pwysig yn ystod y sesiynau tystiolaeth eraill ar 9 Hydref. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech roi'r wybodaeth a ganlyn i helpu'r Pwyllgor i ddeall y sefyllfa:

- Clywodd y Pwyllgor bryderon nad yw Tata yn gwireddu addewidion a wnaed i'r undebau llafur ynghylch buddsoddiadau yn y dyfodol ar eich safleoedd yng Nghymru, heblaw am y ffwrnais arc trydan newydd. Mae'r rhain yn cynnwys adeiladu llinell galfaneiddio newydd

ac uwchraddio pellach yn Llanwern, uwchraddio ehangach ym Mhort Talbot, ac ystyried uwchraddio yn Nhrostre. Sut fyddech yn ymateb i'r pryderon hyn?

- Mae'r Pwyllgor yn deall bod Tata wedi ymrwymo y byddai dros 90% o gontractwyr sy'n gweithio ar y ffwrnais arc trydan newydd yn rhai lleol, ac y byddai gweithwyr a gafodd eu diswyddo yn cael blaenoriaeth wrth lenwi'r swyddi hyn. A allwch chi gadarnhau sut rydych chi wedi ceisio gwireddu'r addewidion hyn, a pha ganran o'r rhai sy'n gweithio i gontractwyr ar y ffwrnes arc trydan newydd sy'n bobl leol?
- Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod 30 aelod o staff wedi elwa o'r cynllun ffyrlo a ddarparwyd gennych, yn hytrach na'r 100 a addawyd gan Tata. A allwch chi amlinellu sut y gweithiodd y broses ffyrlo, a pham y gwnaeth llai o weithwyr elwa ohoni nag a ragwelwyd?

Edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir,

Andrew RT Davies

Andrew RT Davies AS
Cadeirydd: Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg